ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

Y Mesur Rheilffyrdd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Rheilffyrdd yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2005. Cyfeiriwyd y Mesur at y Pwyllgor yn sgil trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar 1 Rhagfyr 2004 ynghylch Araith y Frenhines.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod cyn lleied o amser i graffu'n fanwl ar y Mesur oherwydd amseriad taith y ddeddfwriaeth drwy San Steffan. Ni chafodd y Pwyllgor gyfle i glywed tystiolaeth gan unrhyw un heblaw Swyddogion y Cynulliad oherwydd yr amserlen honno.

Barn gyffredinol y Pwyllgor oedd bod y Mesur yn gam pwysig yn natblygiad Rheilffyrdd Prydain a'i fod yn gyfle i drosglwyddo pwerau sylweddol dros reilffyrdd Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nododd yr Aelodau ystod eang y pwerau yr oedd y Mesur yn ei rhoi i Weithrediaeth yr Alban ac roeddynt yn siomedig o weld bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn cadw nifer o'r pwerau hyn mewn perthynas â Chymru. Un mater a oedd yn peri pryder penodol oedd methiant y Mesur i drosglwyddo pwerau dros y seilwaith yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Er ei bod yn amlwg yn rhy hwyr i wneud newidiadau sylfaenol i'r Mesur, credai'r Pwyllgor y byddai modd newid dau bwynt penodol:

- Roedd yr Aelodau yn pryderu na fyddai gan Gymru reolaeth dros gau gwasanaethau rheilffordd nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Cynulliad. Mae cymalau 22 i 31 yn cyfeirio at hysbysu awdurdodau cenedlaethol am unrhyw gynnig i gau gwasanaeth ac at ymgynghori ar y cynnig hwnnw. Er mai Gweithrediaeth yr Alban fyddai'r Awdurdod Cenedlaethol yn yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fyddai'n ysgwyddo'r swyddogaeth honno mewn perthynas â Chymru. Ni allai'r Aelodau weld

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon / Tel: 029 2082 828224
GTN: 1208
Ffacs / Fax: 029 2082 898021
Minicom: 029 2082 3280
E-bost:Chris.Gwyther@wales.gov.uk

unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yng Nghymru ac roeddynt o'r farn y dylid diwygio'r Mesur i'r perwyl hwnnw.

- Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu ynghylch cadarnhau is-ddeddfau. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol eisoes bwerau eang yn y cyswllt hwn ac ni allai'r Pwyllgor weld unrhyw reswm pam na ddylai gael yr un pwerau â Gweinidogion yr Alban mewn perthynas ag atodlen 9. Byddai modd gwneud hynny drwy ddiwygio Paragraff 1 yn yr atodlen honno er mwyn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol ar gyfer is-ddeddfau sy'n ymwneud ag asedau Cymru, gyda darpariaethau tebyg i'r rhai sy'n ymwneud â'r Alban mewn perthynas ag is-ddeddfau trawsffiniol.

Ar 14 Ionawr, ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd ac aelodau Pwyllgor Ty'r Cyffredin ar y Mesur i amlinellu'r materion a godwyd gan y Pwyllgor ac i ofyn iddynt argymell y newidiadau i'r Mesur. Gan fod taith y Mesur drwy'r Senedd ar fin dod i ben, anfonodd y Cadeirydd gopïau o'r llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ac at holl Aelodau Seneddol Cymru hefyd.

Christine Gwyther AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth